nationalgrid



# Ein hymrwymiad i ddyfodol ynni glân, teg a fforddiadwy

Siarter Busnes Cyfrifol 2023

# Adolygiad y Prif Weithredwr



## "... nawr yw'r amser iawn i symleiddio ein hymagwedd at fusnes cyfrifol a sicrhau mwy o eglurder ar yr hyn sy'n bwysig i ni a'n rhanddeiliaid."

**Yn y Grid Cenedlaethol, mae ein rôl fel busnes cyfrifol wrth wraidd popeth a wnawn. Mae wedi'i ymgorffori yn ein diben – Dod ag Ynni'n Fyw.**

Rydym yn sicrhau bod gan ein cwsmeriaid a'n cymunedau'r trydan a'r nwy y maent yn dibynnu arnynt ar gyfer eu cartrefi a'u busnesau heddiw. Rydym yn gwneud hyn yn ddibynadwy, yn effeithlon ac yn ddiogel. Rydym am barhau i chwarae ein rhan fel busnes cyfrifol. Diffinnir hyn yn ein gweledigaeth: bod wrth wraidd **dyfodol ynni glân**, **teg a fforddiadwy**.

**Glân**, oherwydd mae gennym rôl hollbwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan arwain y ffordd i sero net. Teg, oherwydd rydym am alluogi'r newid ynni i bawb, gan wneud yn siŵr nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. **Fforddiadwy**, oherwydd dylai pawb allu talu am eu holl anghenion ynni hanfodol.

### Ein cynnydd

Yn 2020, lansiwyd ein Siarter Busnes Cyfrifol gyntaf, gan nodi beth mae 'cyfrifoldeb' yn ei olygu i ni. Ers hynny, rydym wedi defnyddio'r siarter honno i lunio ein gweithredoedd fel busnes cyfrifol.

Lansiwyd ein Cynllun Pontio Hinsawdd, sy'n nodi'r cysyniad o 'sero go iawn' – ein nod o sicrhau dim allyriadau erbyn 2050, neu'n agos iawn at hyn, heb ddefnyddio gwrthbwyso i gyflawni ein hymrwymiad sero net. Rhoddwyd ein Cynllun Pontio Hinsawdd i bleidlais gynghorol gan gyfranddalwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y sefydliad yn 2022, gan dderbyn cymeradwyaeth o 98%.

Rydym wedi cynyddu ein huchelgais drwy ddiweddaru ein targedau lleihau allyriadau tymor agos i'w halinio â llwybr 1.5ºC, gyda'r targedau hyn wedi'u dilysu gan y fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi). Bydd y targedau newydd hyn yn golygu mwy o ostyngiadau mewn allyriadau ar draws ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3, sy'n cyd-fynd â'n strategaeth a'n rhaglenni buddsoddi.

Rydym wedi ymgorffori perfformiad a chamau gweithredu i leihau allyriadau, er mwyn galluogi'r newid ynni, i bolisïau cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol ac uwch arweinwyr. Bydd hyn yn cryfhau'r aliniad rhwng ein perfformiad a'n gweithgareddau busnes cyfrifol.

Rydym wedi ariannu rhaglenni sy'n helpu cefnogi twf, amrywiaeth, cyfle a natur yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn 2022, fe wnaethom lansio ymrwymiad o $17 miliwn yn yR Unol Daleithiau a £50 miliwn yn y Deyrnas Unedig i helpu i liniaru trallod ariannol a achosir gan gostau ynni cynyddol. Bydd y cronfeydd hyn yn helpu cefnogi sefydliadau sy'n gweithio ar reng flaen yr argyfwng ynni i barhau i helpu a chefnogi'r rhai mewn angen, yn enwedig yn ystod y gaeafau.

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid yn rhyngwladol i ysgogi newid uchelgeisiol tuag at ddyfodol ynni glân. Cymryd rhan mewn digwyddiadau hinsawdd byd-eang megis COP26 a COP27, gan ddangos bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a rhannu arfer gorau i gyflymu datgarboneiddio rhwydweithiau trydan ledled y byd.

Mae ein pobl yn bwysig i ni, rydym yn croesawu cydweithwyr o bob cefndir ac yn parhau i greu amgylchedd gwaith agored a chefnogol. Rydym yn cydnabod y gallwn wneud mwy i sicrhau bod pawb yn y Grid Cenedlaethol yn aros yn ddiogel. Nod ein hymgyrch Sefyll i Fyny dros Ddiogelwch Grŵp cyfan yw annog pob cydweithiwr i gefnogi'r egwyddorion diogelwch newydd a'r ymddygiadau yr ydym am eu gweld yng ngweithredoedd beunyddiol cydweithwyr.

Mae gwaith i'w wneud o hyd, gan gynnwys lleihau ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 ymhellach. Mae'n bwysig nodi y bydd cynnydd tuag at ein targedau yn debygol o fod yn amrywiol ac yn aflinol. Efallai y bydd angen i ni addasu ein hymagwedd i ymateb i amgylchiadau allanol gan barhau i ganolbwyntio ar ein nod o gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050. Mae parhau i ddarparu'r seilwaith i alluogi'r trawsnewidiad ynni glân yn greiddiol i'n huchelgeisiau, gyda hyn hefyd yn ein helpu i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae angen inni adeiladu ar y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'n cyflenwyr i leihau allyriadau ymhellach yn ein cadwyn werth, gan eu cefnogi i osod eu targedau lleihau allyriadau eu hunain lle nad ydynt wedi gwneud hynny. Mae angen i ni hefyd barhau i ymgysylltu â llunwyr polisi a rheoleiddwyr i sicrhau datblygiad parhaus polisïau a rheoliadau sy'n cefnogi galluogi'r trawsnewidiad ynni i bawb ac y bydd ei angen i'n galluogi i gyrraedd ein targedau lleihau allyriadau uchelgeisiol.

### Disgwyliadau cymdeithasol

Rydym bob amser wedi credu bod angen i fusnesau fel ninnau sefyll am rywbeth mwy na phroffidioldeb. Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod cymdeithas gyfan yn rhannu manteision trawsnewid teg i ddyfodol sero net ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, boed hynny'n helpu pobl ifanc heddiw i ddod yn ddatryswyr problemau ynni yfory, cefnogi ein cwsmeriaid i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon neu fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy dargedu sero net ar gyfer ein hallyriadau ein hunain erbyn 2050.

Creu dyfodol ynni glân, teg a fforddiadwy yw'r hyn y mae cymdeithas yn ei fynnu a'r hyn yr ydym yn ei fynnu gennym ein hunain..

### Beth ddaw nesaf

Byddwn yn adrodd yn ôl ar ein cynnydd yn erbyn y siarter hon yn flynyddol yn ein Hadroddiad Busnes Cyfrifol, o 2023/24.

**John Pettigrew**
**Prif Weithredwr**

## Ein siarter 2023

Er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â gofynion esblygol dyfodol ynni glân, teg a fforddiadwy, credwn mai nawr yw'r amser iawn i symleiddio ein hymagwedd at fusnes cyfrifol a sicrhau mwy o eglurder ar yr hyn sy'n bwysig i ni a'n rhanddeiliaid.

Mae ein ffocws ar gyfer busnes cyfrifol ar dri philer craidd: **ein hamgylchedd, ein cwsmeriaid a'n cymunedau, ein pobl**. Ategir y rhain gan ein hanfodion busnes cyfrifol sy'n cynnwys llywodraethu a gweithgareddau sy'n hanfodol i fusnes o ddydd i ddydd.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol ynni glân tra'n adeiladu'r gweithlu sero net i alluogi cyfnod pontio teg a fforddiadwy i bawb.



# Ein hymagwedd at Fusnes Cyfrifol

**Rydym yn deall bod defnyddwyr a'r cyhoedd yn disgwyl i fusnesau weithredu'n gyfrifol, yn chwilio am safonau uchel o gynaliadwyedd, ac mae gweithwyr am weithio i fusnesau sydd ag ansawdd uchel o waith a diben moesol clir. Mae rheoleiddwyr a llunwyr polisi yn disgwyl i fusnesau chwarae rhan wrth eu helpu i ddatrys problemau cymdeithasol ac rydym hefyd wedi gweld diddordeb cynyddol gan fuddsoddwyr mewn buddsoddiadau hirdymor, cynaliadwy.**

### Strategaeth fusnes a newidiadau diweddar

Yn y Grid Cenedlaethol, rydym yn ceisio cymhwyso busnes cyfrifol fel egwyddor trwy ein gwerthoedd bob dydd, trwy wneud y peth iawn, dod o hyd i ffordd well a gwneud iddo ddigwydd. Mae cynaliadwyedd yn rhan o'n strategaeth fusnes, ac mae wedi'i wreiddio drwy ein blaenoriaethau strategol, yn ogystal â thystiolaeth o'n colyn strategol sy'n tanlinellu ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio rhwydweithiau ynni er mwyn cyrraedd sero net.

Mae'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol a'r newidiadau yn ein busnes yn atgyfnerthu ein gweledigaeth: bod wrth wraidd dyfodol ynni glân, teg a fforddiadwy a llywio ein hymagwedd symlach at fusnes cyfrifol.

### Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Rydym yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs), sy'n alwad gyffredinol i weithredu i ddileu tlodi, amddiffyn y blaned a sicrhau bod pawb yn mwynhau heddwch a ffyniant. Y Nodau Datblygu Cynaliadwy sydd fwyaf perthnasol i ymrwymiadau ein Siarter Busnes Cyfrifol yw SDG 5: cydraddoldeb rhywiol, SDG 7: ynni fforddiadwy a glân, SDG 8: gwaith gweddus a thwf economaidd, a SDG 13: gweithredu ar yr hinsawdd.

### Darparu trosglwyddiad teg

Er ein bod yn gweithio i gyflawni sero net a darparu system ynni lân a fforddiadwy ar gyfer y dyfodol, rhaid inni hefyd weithio i gyflawni hynny'n deg, yn gyfartal ac yn 'gyfiawn'. Rhaid inni wneud hyn tra'n dal i ystyried; ein rôl wrth ddatblygu, gweithredu a chynnal seilwaith cenedlaethol hollbwysig, cymhlethdodau'r hyn y mae tegwch yn ei olygu i wahanol gymunedau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gadael pobl a chymunedau ar ôl.

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn gweithio i ddeall; beth mae pontio teg yn ei olygu i'r Grid Cenedlaethol a'n cymunedau, beth yw ein rôl o ran cefnogi pontio teg a ble y gallwn weithio gydag eraill, pa gamau y gallwn eu cymryd, a sut y byddwn yn cael ein dwyn i gyfrif wrth gyflawni. Mae'r ymrwymiadau yn y Siarter hon yn cefnogi sicrhau trosglwyddiad teg.

### Deall beth sy'n berthnasol

Perthnasedd yw'r egwyddor sy'n pennu pa faterion busnes cyfrifol sy'n ddigon pwysig fel ei bod yn hanfodol i ni adrodd arnynt a sicrhau bod y pwyslais yn ein hadroddiad yn adlewyrchu eu blaenoriaeth gymharol.

Fel rhan o'n gwaith i adnewyddu ein siarter ac ar y cyd â rhanddeiliaid, rydym wedi cynnal asesiad perthnasedd amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) newydd. Roedd y broses hon yn diffinio, asesu a dilysu'r pynciau busnes cyfrifol pwysicaf i'n rhanddeiliaid allweddol (buddsoddwyr, cydweithwyr, cwsmeriaid, contractwyr a chyflenwyr, cymunedau a llywodraethau, rheoleiddwyr), ac yna'n cyferbynnu'r rhain â barn y cwmni a gwerth ariannol.

Ein chwe phrif bwnc perthnasol a nodwyd yw:

1. Allyriadau nwyon tŷ gwydr
2. Datgarboneiddio a thrawsnewid ynni glân
3. Fforddiadwyedd
4. Cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth
5. Dibynadwyedd rhwydwaith
6. Amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant.

Cafodd y pynciau perthnasol eu nodi a'u hasesu yn unol â safon y Fenter Adrodd Byd-eang (GRI) ar berthnasedd (GRI 3).

Rydym hefyd wedi ymgorffori persbectif perthnasedd ariannol i ddiogelu ein hadroddiadau at y dyfodol, yn seiliedig ar y Bwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol (ISSB), y Safonau Adrodd ar Gynaliadwyedd Ewropeaidd (ESRS) a'r Gofynion Datgelu Cynaliadwyedd (SDR) yn unol â chynlluniau llywodraeth y DU. Nodwyd ac aseswyd perthnasedd ariannol gan reolwyr y Grid Cenedlaethol yn seiliedig ar lif arian yn y dyfodol, perfformiad, asedau a rhwymedigaethau, cyfalafau ac amseriadau a thebygolrwydd eraill.

I gael rhagor o fanylion am ein hasesiad perthnasedd llawn, gweler ein **gwefan**.

### Rydym wedi adnewyddu ein siarter

Er mwyn ei gwneud yn glir pa bynciau sy'n berthnasol i ni a'n rhanddeiliaid, rydym wedi symleiddio ein hymagwedd at fusnes cyfrifol gan ganolbwyntio ar dail colofn (ein hamgylchedd, ein cwsmeriaid a'n cymunedau, ein pobl) a ategir gan ein hanfodion busnes cyfrifol. Mae ein colofnau blaenorol ar economi a llywodraethu wedi'u hymgorffori yn y dull symlach newydd hwn.

### Sut y byddwn yn adrodd ar ein Siarter Busnes Cyfrifol

Mae ein Hadroddiad Busnes Cyfrifol blynyddol yn manylu ar ein cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau o fewn ein colofnau ac yn arddangos y gweithgareddau sydd gennym ar y gweill ar draws y busnes i helpu i gyflawni yn eu herbyn.

Bydd yr adrodd yn erbyn ein Siarter Busnes Cyfrifol ar ei newydd wedd, y ddogfen hon, a'r ymrwymiadau o'i mewn yn cychwyn o'n Hadroddiad Busnes Cyfrifol 2023-2024. I gael rhagor o wybodaeth am ein cyfres adrodd, gweler tudalen 12.

### Rheoli perfformiad yn erbyn ein siarter

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb i reolwyr am weithredu'r strategaeth sero net a goruchwylio datblygiad a chyflawniad ymrwymiadau a thargedau RBC. Mae rolau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd wedi'u gwreiddio ar draws y Grŵp i sicrhau, yn ogystal â'r ffocws o'r brig i'r bôn, bod dull o'r gwaelod i fyny hefyd ar gyfer mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Ceir manylion ein strwythur llywodraethu ar dudalen 11.

Rydym yn gweithio tuag at ymgorffori rheolaeth perfformiad ein hymrwymiadau Siarter Busnes Cyfrifol ym mhob uned fusnes, fel rhan o'u hadolygiadau perfformiad busnes misol a chwblheir adolygiad manwl trwy archwiliad manwl chwarterol o fusnes cyfrifol. Ceir gwybodaeth am ein hunedau busnes yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**Ein colofnau craidd**

**Ein hamgylchedd**

**Darparu dyfodol ynni glân**

**Darllen pellach**
Darllenwch fwy ar dudalennau 3 i 5

**Ein cwsmeriaid a chymunedau**

**Cefnogi pontio teg a fforddiadwy**

**Darllen pellach**
Darllenwch fwy ar dudalennau 6 a 7

**Ein pobl**

**Adeiladu'r gweithlu sero net**

**Darllen pellach**
Darllenwch fwy ar dudalennau 8 a 9

**Wedi'i ategu gan**

**Hanfodion Busnes Cyfrifol**

**Bod yn fusnes cyfrifol yn ein gweithrediadau**

**Darllen pellach**
Darllenwch fwy ar dudalennau 10 a 11

# Ein hamgylchedd

## Darparu dyfodol ynni glân



**Nodau Datblygu Cynaliadwy cysylltiedig**

- 7 Ynni fforddiadwy a glân
- 13 Gweithredu ar hinsawdd

**Ein pynciau perthnasol**

- Datgarboneiddio a thrawsnewid ynni glân
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth
- Addasiad
- Gwastraff
- Defnydd dŵr ac ansawdd yr amgylchedd dŵr

## Ymrwymiad 1:
## Achieve net zero by 2050 for Scope 1, 2 and 3 emissions

### Gostyngiad o 60%

Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1 a 2 60% erbyn 2030 (o waelodlin 2018/19)

### Gostyngiad o 37.5%.

Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 3 37.5% erbyn 2034 (o waelodlin 2018/19)

### 100% o gerbydau ysgafn yn rhai trydan

Symud i fflyd drydan 100% erbyn 2030 ar gyfer ein cerbydau ysgafn, a cheisio amnewid ein cerbydau gwaith canolig a thrwm gyda dewisiadau di-garbon

### Gostyngiad o 50%.

Lleihau allyriadau $SF_6$ o'n gweithrediadau 50% erbyn 2030, o waelodlin 2018/19

### Gostyngiad o 20%.

Lleihau'r defnydd o ynni yn ein swyddfeydd blaenllaw 20% erbyn 2030, o linell sylfaen 2019/20

### Gostyngiad blynyddol o 50%.

Lleihau ein hallyriadau aer blynyddol o leiaf 50% erbyn 2025/26, o linell sylfaen 2019/20, a gwrthbwyso unrhyw allyriadau sy'n weddill yn gyfrifol

### Bydd 50% o gyflenwyr yr Unol Daleithiau yn ymrwymo i osod map ffordd Targed Seiliedig ar Wyddoniaeth

Ymgysylltu â'r 50% uchaf o'n cyflenwyr yn yr Unol Daleithiau yn ôl allyriadau i sefydlu map ffordd datgarboneiddio/cynllun gweithredu tuag at Darged Seiliedig ar Wyddoniaeth erbyn 2025/26

### Bydd 80% o gyflenwyr y Deyrnas Unedig yn ymrwymo i osod Targed Seiliedig ar Wyddoniaeth ffurfiol

Bydd yr 80% uchaf o'n cyflenwyr yn y Deyrnas Unedig yn ôl allyriadau wedi ymrwymo'n ffurfiol i osod Targed Seiliedig ar Wyddoniaeth erbyn 2025/26

## Ymrwymiad 2:
## Diogelu ein hamgylchedd naturiol

### Gwelliant o 10%

Adfer yr amgylchedd naturiol 10% ar y tir rydym yn ei reoli yn y Deyrnas Unedig a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn y tir rydym yn ei reoli yn yr Unol Daleithiau

## Ymrwymiad 3:
## Buddsoddi mewn datgarboneiddio dyfodol ynni

### £29 biliwn

Buddsoddi o leiaf £29 biliwn mewn seilwaith gwyrdd a phrosiectau yn y pum mlynedd hyd at fis Mawrth 2026

## Ymrwymiad 4:
## Addasu i hinsawdd sy'n newid

Adroddiad ar ein risgiau a chyfleoedd newid hinsawdd a'n buddsoddiad mewn gweithgareddau addasu i newid hinsawdd

## Ymrwymiad 5:
## Defnyddio adnoddau'n gyfrifol

Adrodd ar reoli ein heffaith amgylcheddol gyda ffocws ar lygredd, gwastraff a defnydd dŵr

# Ein hamgylchedd

## Cynnydd hyd yma

- Mae ein targedau tymor agos yn cyd-fynd â llwybr 1.5°C o dan SBTi ac rydym yn gweithio tuag at sero net fel Grŵp.

- Lansiwyd ein Cynllun Newid Hinsawdd sy'n nodi ein camau gweithredu i gyrraedd targedau lleihau nwyon tŷ gwydr ein Grŵp erbyn 2050.

**Newid hinsawdd yw her ddiffiniol ein hoes. Fel rhan hanfodol o systemau ynni yn y Deyrnas Unedig a Gogledd-ddwyrain yr Unol Daleithiau, rydym yn ddiwyro yn ein hymrwymiad i sicrhau dyfodol ynni glân. Mae ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn amlwg yn gysylltiedig â datgarboneiddio systemau ynni ac felly ein strategaeth fusnes gyffredinol.**

**Y tu hwnt i leihau allyriadau, mae meysydd eraill lle gallwn gael effaith sylweddol gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan gynnwys rheoli effaith darparu seilwaith ynni ar ein cymunedau a'r amgylchedd naturiol, ynghyd â defnyddio ein daliad tir anweithredol sylweddol i sicrhau buddion i'r amgylchedd naturiol.**

Ers cyhoeddi ein hymrwymiad sero net, rydym wedi gwneud cynnydd ar ein nodau amgylcheddol, gan gynnwys lleihau allyriadau, buddsoddiadau mewn natur a mwy. Fel rhan o'r siarter 2023 hon, rydym yn adnewyddu ac yn gwella ein hymrwymiadau amgylcheddol, gan sicrhau aliniad â gwyddorau hinsawdd ac arfer gorau'r diwydiant, gan ein gwthio i gyflymu, ac ehangu cwmpas, ein gwaith tuag at ddyfodol cynaliadwy.

## Cyflawni sero net erbyn 2050 ar gyfer allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3

Credwn fod angen cymryd camau pendant i gyfyngu ar y cynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang i 1.5°C. Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu fel arweinydd yn y trawsnewid ynni, gan weithio gydag eraill ar draws y sector a ledled y byd i ddod at ein gilydd i ddarparu ynni glân, teg a fforddiadwy.

Rydym yn gweithio gyda'r fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi) gyda'r bwriad o ddilysu targed sero net hirdymor wedi'i alinio â 1.5°C. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y gallai hyn fod yn anodd ei gyflawni gan nad yw SBTi wedi cwblhau ei lwybr sector nwy penodol eto. Fodd bynnag, yn y cyfamser rydym wedi cynyddu ein huchelgais drwy ddiweddaru ein targedau lleihau allyriadau tymor agos i'w halinio â llwybr 1.5°C, gyda'r targedau hyn wedi'u dilysu gan yr SBTi. Roedd ein targedau tymor agos blaenorol yn cyd-fynd â llwybr llawer is na 2°C. Bydd y targedau tymor agos hyn sydd wedi'u diweddaru yn golygu mwy o ostyngiadau mewn allyriadau ar draws ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3, ac maent yn cyd-fynd â'n strategaeth a'n rhaglenni buddsoddi.

Mae ein hymrwymiad i sero net yn dechrau gyda'n gweithrediadau ein hunain. Rydym yn cymryd camau breision i leihau ein hallyriadau, megis drwy gyfyngu ar ollyngiadau a defnyddio'r nwy tŷ gwydr cryf sylffwr hecsafflworid (SF6) o'n hoffer trydan, mabwysiadu cerbydau trydan i'n fflyd, a sbarduno effeithlonrwydd ynni yn ein gweithleoedd. Mae cyflawni sero net hefyd yn gofyn am leihau allyriadau ar draws ein cadwyn gyflenwi; i gyflawni hyn rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cyflenwyr i sefydlu cynlluniau gweithredu a mabwysiadu targedau datgarboneiddio seiliedig ar wyddoniaeth.

Mae cyfran sylweddol o'n hallyriadau o fewn cwmpas ein targedau y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol ac yn gysylltiedig â datgarboneiddio'r sector ynni. Am y rheswm hwn, rydym hefyd wedi ymrwymo i alluogi datgarboneiddio economi gyfan, yn y Deyrnas Unedig a Gogledd-ddwyrain yr Unol Daleithiau.

Ar gyfer ein busnesau trydan, mae hyn yn golygu cefnogi mabwysiadu ynni glân trwy ryng-gysylltu ynni adnewyddadwy â'n rhwydweithiau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, ynghyd â dylunio a rheoli ein rhwydweithiau i ddiwallu anghenion cynyddol gwres trydan a chludiant. Ar gyfer ein Gweithredwr Systemau Trydan yn y Deyrnas Unedig, mae hyn yn golygu cyflawni ein huchelgais o weithredu system di-garbon erbyn 2025. Bydd ein busnes cystadleuol, National Grid Ventures, yn parhau i ddatblygu a rheoli prosiectau ynni glân, gan gynnwys rhyng-gysylltwyr trydan yn y Deyrnas Unedig, a storio solar, gwynt a batri yn yr Unol Daleithiau.

Gwyddom fod cyflawni ein targedau lleihau allyriadau yn dibynnu ar ddatblygiad ac esblygiad polisi, fframweithiau rheoleiddio a systemau cynllunio sy'n cefnogi datgarboneiddio'r sector ynni ehangach.

Mae ein dealltwriaeth o ba fesurau sydd eu hangen yn esblygu dros amser, a byddwn yn parhau i asesu'r dirwedd polisi a rheoleiddio ac eirioli dros y camau hynny y credwn sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein targedau.


Yn y Deyrnas Unedig, mae ein dogfen Cyflawni ar gyfer 2035 yn nodi'r camau gweithredu â blaenoriaeth sydd eu hangen i sicrhau bod y sector rhwydweithiau'n gallu helpu gwneud system pŵer wedi'i datgarboneiddio yn realiti ac i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein targedau.

Yn yr Unol Daleithiau, mae ein Gweledigaeth Ynni Glân a gyhoeddwyd yn gynnar yn 2022 yn nodi'r camau gweithredu y credwn sy'n hanfodol i sicrhau ein bod gyda'n gilydd ar y llwybr at gyflawni nodau datgarboneiddio ym Massachusetts ac Efrog Newydd.

Yn rhyngwladol, rydym hefyd yn ysgogi uchelgais a gweithredu tuag at y trawsnewid ynni glân. Rydym yn gweithio gyda'n cymheiriaid mewn gwledydd sy'n ceisio datblygu gridiau gwyrdd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan rannu dysgu a phrofiadau i annog cynyddu ynni adnewyddadwy yn gyflym. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ein sector ac eraill i ddangos bod camau'n cael eu cymryd a rhannu arfer gorau ac arloesedd i alluogi busnesau a llywodraethau i fynd ymhellach ac yn gyflymach.

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| Cwmpas 2: Anuniongyrchol | Cwmpas 3: Anuniongyrchol | Cwmpas 1: Uniongyrchol | Cwmpas 3: Uniongyrchol |
|---|---|---|---|



| I fyny'r gadwyn | | Ein gweithrediadau | I lawr y gadwyn |
|---|---|---|---|
| • Colledion llinellau ar gyfer ein llinellau trawsyrru a dosbarthu trydan<br>• Ynni a brynwyd i'w ddefnyddio yn ein cyfleusterau<br>• Defnydd nwy naturiol hylifedig (LNG) o drydan | • Cynhyrchu'r trydan a ddefnyddir gan ein cwsmeriaid<br>• Nwyddau a gwasanaethau a brynwyd<br>• Teithio busnes<br>• Cymudo gweithwyr<br>• Rheoli gwastraff | • Cynhyrchu trydan Long Island Power Authority<br>• Gollyngiadau ac awyrellu o'n systemau dosbarthu nwy<br>• Gollyngiadau $SF_6$ o'n hoffer trydan<br>• Defnydd tanwydd fflyd<br>• Awyru LNG a thanwydd | • Defnydd o'r nwy a ddarparwn i'n cwsmeriaid |

# Ein hamgylchedd parhad



**Diogelu ein hamgylchedd naturiol**
Mae'r amgylchedd naturiol yn dirywio'n fyd-eang, er gwaethaf y ffaith bod cymdeithas angen ecosystemau iach, gweithredol i oroesi a ffyniant economaidd yn gysylltiedig ag adnoddau naturiol.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth natur fwy uchelgeisiol a deall sut y bydd ysgogwyr allanol yn dylanwadu ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol; megis ymrwymiadau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Ôl-2020 COP15, Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth ar gyfer Natur a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â Natur (TNFD).

Mae gwahaniaethau sylweddol yn y mathau o gynefinoedd a lefelau bioamrywiaeth sy'n bresennol ar draws y daearyddiaethau lle rydym yn gweithredu. Felly, byddwn yn cysoni ein hymagwedd at flaenoriaethau rhanbarthol. Mae hyn yn golygu ar gyfer ein gweithrediadau yn y Deyrnas Unedig, byddwn yn canolbwyntio ar adfer yr amgylchedd naturiol, ac ar gyfer ein gweithrediadau yn yr Unol Daleithiau, byddwn yn canolbwyntio ar warchod yr amgylchedd naturiol. Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd yr ydym eisoes wedi'i wneud drwy ganolbwyntio ar y meysydd o'n busnes lle cawn yr effaith fwyaf sylweddol ar natur: ar y tir yr ydym yn berchen arno a thrwy gyflawni ein prosiectau seilwaith mawr, ar y tir ac ar y môr, fel rhan o'r trawsnewid ynni. Lle cawn effaith, byddwn yn gadael byd natur mewn cyflwr mwy cadarnhaol nag a ganfuom, tra'n sicrhau aliniad â gofynion ein rheolyddion.

**Buddsoddi mewn datgarboneiddio dyfodol ynni**
Mae ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd a phrosiectau wedi'i alinio ag amcanion lliniaru ac addasu Tacsonomeg yr UE ar gyfer y newid yn yr hinsawdd er mwyn gwella cymaroldeb ar gyfer ein rhanddeiliaid. Mae'r ddau amcan wedi'u datblygu i gyd-fynd â Chytundeb Paris, yn gyson â'n hymrwymiad sero net erbyn 2050. Mae ein targed buddsoddi gwyrdd yn cyd-fynd â'r rhagolygon pum mlynedd (2021/22–2025/26) a gyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd 2022, lle'r ydym yn bwriadu buddsoddi hyd at £40 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf, y mae tua £29 biliwn ohono, neu tua 70%, wedi'i alinio â Thacsonomeg yr UE. Mae hyn yn gwneud y Grid Cenedlaethol yn un o fuddsoddwyr mwyaf y FTSE o ran darparu sero net.

**Addasu i newid hinsawdd**
Rydym yn gweld mwy a mwy o beryglon sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar bob rhan o'n busnes, ac mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i gyflawni ac esblygu ein cynlluniau i addasu i'r hinsawdd sy'n newid. Rhaid inni sicrhau bod ein seilwaith ynni yn wydn, bod y risg o beryglon hinsawdd yn cael ei reoli, a'n bod yn parhau i ddarparu ynni dibynadwy i'n cwsmeriaid. Rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu ymagwedd gyson, gyfannol at addasu hinsawdd ar draws y sefydliad.

Rydym wedi datblygu dadansoddiad mewnol Offeryn Risg Newid yn yr Hinsawdd i nodi risg peryglon hinsawdd i'n seilwaith ynni. Byddwn yn defnyddio hyn i esblygu ein gwaith ar addasu hinsawdd, datblygu Cynllun Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd, amlinellu atebion ymaddasu ar gyfer ein hasedau risg uchel a chadarnhau'r dull strategol o reoli'r risg honno.

**Defnyddio adnoddau'n gyfrifol**
Rydym yn deall bod ein holl waith tuag at sero net a chyflawni ein targedau cynaliadwyedd wedi'i ategu gan sylfaen o gydymffurfio a rheolaeth amgylcheddol gref. Rydym yn parhau i ddilyn arfer gorau Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu sy'n ysgogi gwelliant parhaus i leihau llygredd, gwastraff ac effeithiau ein defnydd o ddŵr.

Er mwyn hwyluso hyn, mae ein busnesau yn gweithredu systemau rheoli amgylcheddol sy'n cyd-fynd â safon IS014001 a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac yn cefnogi egwyddorion effeithlonrwydd a gweithrediad amgylcheddol gyfrifol.


> **"Rydym wedi cyhoeddi y bydd o leiaf £29 biliwn, tua 70% o'n rhaglen fuddsoddi pum mlynedd gwerth £40 biliwn, yn cael ei fuddsoddi mewn datgarboneiddio rhwydweithiau ynni, yn unol ag egwyddorion Tacsonomeg yr UE."**

## Ein cwsmeriaid a chymunedau


# Cefnogi pontio teg a fforddiadwy



**Nodau Datblygu Cynaliadwy cysylltiedig**



**Ynni fforddiadwy a glân**



**Gwaith boddhaol a thwf economaidd**

**Ein pynciau perthnasol**

- Fforddiadwyedd
- Effaith gymdeithasol
- Boddhad Cwsmeriaid

### Ymrwymiad 1:
Cefnogi pontio ynni fforddiadwy

Adroddiad ar y buddion a ddarparwyd o ganlyniad uniongyrchol i'n cymorth cymunedol, gan gynnwys cymorth ariannol, cyngor a mesurau effeithlonrwydd ynni

### Ymrwymiad 2:
Cyflymu symudedd cymdeithasol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

**45,000 o bobl**

Darparu datblygiad sgiliau ystyrlon ar gyfer 45,000 o bobl erbyn 2030 gyda ffocws ar gymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol ac adrodd ar gynnydd ein rhaglenni cyflogadwyedd Grid for Good

### Ymrwymiad 3:
Ymgysylltu'n uniongyrchol â'n cymunedau trwy wirfoddoli


**500,000 awr**

Darparu 500,000 o oriau gwirfoddoli gweithwyr yn ein cymunedau erbyn 2030

### Ymrwymiad 4:
Gweithredu ar adborth a gawn gan ein cwsmeriaid ar y gwasanaeth a ddarparwn

Adrodd yn ôl ar sgorau boddhad cwsmeriaid ar draws ein meysydd busnes allweddol

# Ein cwsmeriaid a chymunedau



## Grid for Good

Grid for Good yw ein rhaglen flaenllaw ar draws y Grŵp sy'n darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc, 16-25 oed, sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig.

Er mwyn creu effaith gymdeithasol gadarnhaol a'r sgiliau sydd eu hangen arnom nawr ac yn y blynyddoedd i ddod, byddwn yn gweithio i ddod o hyd i ffynonellau o fewn ein cymunedau.

Rydym yn deall pwysigrwydd mesur ac yn gweithio'n galed i gasglu setiau data newydd i adrodd ar y gwerth cymdeithasol a grëir gan ein busnes, a'n cadwyn gyflenwi, i'n cwsmeriaid a'n cymunedau.

## Cynnydd hyd yma

- Rydym wedi creu cronfa cymorth ynni o £50 miliwn yn y Deyrnas Unedig a $17 miliwn yn yr Unol Daleithiau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cymunedau mwyaf agored i niwed er mwyn helpu lliniaru'r trallod ariannol a achosir gan gostau ynni cynyddol.
- Ers lansio ein rhaglenni sgiliau a chyflogadwyedd Grid for Good, rydym wedi cyflogi 29 o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein cymunedau.

**Wrth arwain y trawsnewid ynni, byddwn yn sicrhau trawsnewidiad teg lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl a thrwy wneud hynny yn creu gwerth cymdeithasol ac effaith ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cymunedau.**

### Cefnogi pontio ynni fforddiadwy

Rydym wedi ymrwymo i helpu lleddfu'r pwysau ar gymdeithas, lle y gallwn. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio cronfeydd caledi a mesurau effeithlonrwydd ynni y byddwn yn eu cyflawni drwy bartneriaethau â sefydliadau sy'n gweithio ar y rheng flaen. Rydym am sicrhau bod pawb yn teimlo'r manteision technolegol ac amgylcheddol a ddaw yn sgil y newid ynni glân. Byddwn yn parhau i sicrhau bod grantiau a chynlluniau arloesi ar gael yn yr ardaloedd yr ydym yn gweithredu ynddynt, er mwyn i gymunedau a busnesau bach fanteisio arnynt.

### Cyflymu symudedd cymdeithasol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Byddwn yn gweithio ochr yn ochr ac yn cydweithio â'n cyfoedion, partneriaid ac addysgwyr ac yn arwain y ffordd wrth adeiladu rhaglenni i gyflymu symudedd cymdeithasol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan ganolbwyntio ar y rhai ar incwm is. Trwy ddarparu datblygiad sgiliau ystyrlon rydym yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n gofyn am ddysgu a chyfranogiad neu gael cyflogaeth. Trwy uwchsgilio, ein nod yw cael effaith gadarnhaol ar fywydau a helpu tyfu'r gweithlu sero net yn y dyfodol sydd ei angen i alluogi'r newid ynni. Rydym hefyd yn monitro gweithgareddau ysgafn eraill sy'n cynnwys ffeiriau gyrfa a sgyrsiau mewnwelediad, er enghraifft, ni fydd y rhain yn cyfrif tuag at ein targed datblygu sgiliau.



### Ymgysylltu'n uniongyrchol â'n cymunedau trwy wirfoddoli


Er mwyn creu cysylltiadau a buddion ystyrlon rhwng ein gweithwyr a'n cymunedau, byddwn yn darparu gwirfoddoli gan weithwyr trwy amrywiaeth o bartneriaethau ar draws ein busnesau yn y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau. O'n gweithgareddau gwirfoddoli, bydd 80% yn cyd-fynd â'n hymrwymiadau cymunedol a bydd 20% yn cael ei neilltuo ar gyfer gwirfoddoli dewisol mewn ymateb i anghenion y gymuned leol. Yn ogystal â rhoddion gan y Grid Cenedlaethol, bydd ein gweithwyr hefyd yn cael mynediad at gynlluniau arian cyfatebol i godi arian ar gyfer eu helusennau dewisol ac i wneud rhoddion i sefydliadau cymunedol trwy gyfrannu drwy gyflogres.

### Gweithredu ar adborth a gawn gan ein cwsmeriaid ar y gwasanaeth a ddarparwn

Rydym yn gwerthfawrogi ein cwsmeriaid, a byddwn yn ceisio gweithredu'n barhaus ar adborth ar y gwasanaeth a ddarparwn. O drosglwyddo a dosbarthu i ryng-gysylltwyr a mynediad at ynni adnewyddadwy, mae ein hadborth cwsmeriaid yn ein galluogi i gadw a gwella ein safonau.

# Ein pobl

## Adeiladu'r gweithlu sero net



### Nodau Datblygu Cynaliadwy cysylltiedig

- Cydraddoldeb rhyw
- Gwaith boddhaol a thwf economaidd
- Gweithredu ar hinsawdd

### Ein pynciau perthnasol

- Amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant
- Sgiliau a chyflogadwyedd
- Datblygu'r gweithlu
- Diwylliant

## Ymrwymiad 1:
Buddsoddi yn ein pobl ac adeiladu y sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno'r dyfodol ynni glân

Sicrhau bod gan bob cydweithiwr fynediad at atebion dysgu diddorol i gyflawni eu potensial a datblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer y gweithlu sero net

## Ymrwymiad 2:
Adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan roi mwy o sylw i gynrychiolaeth gynyddol ethnig a benywaidd yn ein gweithlu

**35% yn fenywod**
**20% ethnigrwydd**

Anelu at 35% o ferched ac 20% o ethnigrwydd yn ein poblogaeth reoli erbyn 2025

**50% yn fenywod**
**40% ethnigrwydd**

Anelu at 50% o ferched ac 40% o ethnigrwydd yn ein poblogaeth talent newydd erbyn 2025

**50% amrywiaeth arweinyddiaeth**

Anelu at 50% o amrywiaeth ein Gweithrediaeth Grŵp erbyn 2025 gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffocws ar ryw ac ethnigrwydd

Anelu at 50% o amrywiaeth ein Bwrdd erbyn 2025

## Ymrwymiad 3:
Creu diwylliant cynhwysol, lle mae'n ddiogel i siarad a lle mae lleisiau ein cydweithwyr yn cael eu clywed a'u deall gan ein Grŵp Gweithredol a Bwrdd

Anelu at sicrhau bod ein metrigau ymgysylltu â chydweithwyr a 'Ddiogel i Ddweud' yn aros ar y norm perfformiad uchel neu'n uwch na hynny (meincnod Korn Ferry)

Bydd ein Grŵp Gweithredol a Bwrdd yn cynnal sesiynau gwrando rheolaidd gyda chydweithwyr i lywio penderfyniadau er eu budd gorau

## Ymrwymiad 4:
Arwain y diwydiant ar iechyd a lles cydweithwyr

Anelu at sicrhau bod metrigau lles ein cydweithwyr yn aros yr un fath neu'n uwch na'r rhai ar gyfer y flwyddyn flaenorol

## Ymrwymiad 5:
Sicrhau bod pob cydweithiwr yn derbyn cyflog teg a chyfartal

Ymrwymo i wneud yn siŵr bod cyflog yn gyfartal i bob cydweithiwr ac i sicrhau nad oes unrhyw duedd waeth beth fo'r lleoliad yn y Deyrnas Unedig neu'r Unol Daleithiau, rhyw, ethnigrwydd neu anabledd

# Ein pobl

### Cynnydd hyd yma

- 81% Sgôr ymgysylltu â gweithwyr ar draws y grŵp, chwe phwynt yn uwch na meincnodau allanol.

Mae partneriaeth y Grid Cenedlaethol â'i Grwpiau Adnoddau Gweithwyr wedi ysgogi effaith wirioneddol:

- Yn y 50 Uchaf o gyflogwyr gorau i fenywod The Times
- Y 10 cyflogwr rhagorol gorau ar gyfer hil yn y Gwobrau Ethnigrwydd
- Arloeswr LHDTC+ yng ngwobrau LHDT Prydain

### Buddsoddi yn ein pobl ac adeiladu y sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno'r dyfodol ynni glân

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu atebion dysgu sy'n hygyrch i bob cydweithiwr, sy'n darparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu ac yn annog dysgu hunanwasanaeth. Trwy ddefnyddio ymagweddau effaith uchel a deniadol, byddwn yn meithrin amgylchedd lle gall pob cydweithiwr ddysgu oddi wrth eraill a chydag eraill. Bydd creu diwylliant lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i ddysgu yn grymuso ein cydweithwyr i berfformio ar eu gorau a chyflawni eu potensial. Bydd y diwylliant hwn hefyd yn galluogi'r Grid Cenedlaethol i ddenu a chadw'r dalent sydd ei hangen arnom i gyflawni sero net yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

### Adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan roi mwy o sylw i gynrychiolaeth gynyddol ethnig a benywaidd yn ein gweithlu

Mae'r Grid Cenedlaethol yn anelu at fod ymhlith y sefydliadau mwyaf amrywiol, teg a chynhwysol yn yr 21ain ganrif. Rydym yn bwriadu cyflymu'r cynnydd rydym wedi'i wneud ar amrywiaeth ers 2020, gan osod targedau clir i gynyddu cynrychiolaeth ethnig a benywaidd yn ein gweithlu erbyn 2025. Mae cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae ein nod diweddaraf yn adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau â'r llwybr hwn.

Rydym eisiau cynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad ac ar draws pob grŵp ethnig fel y gall cydweithwyr weld llwybrau gyrfa clir lle bynnag y maent yn gweithio. Yn ystod y pandemig, rydym wedi gweld effaith ar amrywiaeth rhwng y rhywiau gan fod nifer anghymesur o fenywod wedi gadael y gweithlu ar draws pob diwydiant. Ein nod yw gwrthdroi hynny a dychwelyd at duedd gadarnhaol o gynrychiolaeth fenywaidd mewn rolau arwain a rolau anhraddodiadol, yn enwedig yn y maes ac ardaloedd gweithredol. Mae National Grid hefyd yn gwmni sy'n croesawu cydweithwyr LHDTC+ a chydweithwyr ag anableddau, ac rydym yn parhau i gynyddu ein ffocws ar y meysydd hyn i sicrhau'r gynrychiolaeth a'r gefnogaeth gywir.

### Creu diwylliant cynhwysol, lle mae'n ddiogel lleisio barn a lle mae lleisiau ein cydweithwyr yn cael eu clywed a'u deall gan Weithrediaeth a Bwrdd ein Grŷp

Rydym yn ymfalchïo mewn bod yn sefydliad lle mae ein cydweithwyr yn teimlo ei bod yn ddiogel codi llais a herio lle nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, a'n huchelgais yw parhau â'n harweinyddiaeth yn y maes hwn ar gyfer y diwydiant ynni. Rydym am fod yn gwmni cynhwysol ac mae ein Harweinwyr Grŵp Gweithredol wedi ymrwymo i ymgysylltu'n rheolaidd â, gwrando ac ymateb i anghenion ein pobl. Mae ein haelodau Bwrdd hefyd yn arwain sesiynau gwrando gyda chydweithwyr fel eu bod mewn sefyllfa dda i gynrychioli eu hanghenion a hyrwyddo llwyddiant y cwmni, yn unol ag adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

### Arwain y diwydiant ar iechyd a lles cydweithwyr

Mae diogelu a gwella iechyd corfforol a meddyliol ein cydweithwyr yn flaenoriaeth yn y Grid Cenedlaethol. Mae gennym ystod eang o adnoddau iechyd a lles ymysg y gorau yn y diwydiant sydd ar gael i unigolion a'u rheolwyr i sicrhau'r lefel gywir o gymorth i bawb sydd ei angen. Mae hyn yn ein helpu i reoli materion iechyd a lles yn rhagweithiol a hwyluso strategaethau dychwelyd i'r gwaith effeithiol lle bo angen. Rydym hefyd wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle gall cydweithwyr drafod yn agored a cheisio cymorth gyda materion iechyd meddwl, a lle mae risgiau lles corfforol yn cael eu hasesu a'u lliniaru'n barhaus.



### Sicrhau bod pob cydweithiwr yn cael cyflog teg a chyfartal

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw fwlch cyflog perthnasol yn ein busnesau yn y Deyrnas Unedig nac yn yr Unol Daleithiau. Mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Deyrnas Unedig, ac rydym yn arwain y diwydiant ar 2.4% o gymharu â 22.8% ar gyfer y sector ynni ehangach (ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Er nad yw'n ofynnol i ni adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn yr Unol Daleithiau yn ôl y gyfraith, rydym yn darparu data ar gyfer yr Unol Daleithiau ochr yn ochr â'r Deyrnas Unedig yn ein Hadroddiad Busnes Cyfrifol blynyddol. Rydym hefyd yn adrodd ar fwlch cyflog ethnigrwydd yn y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau i gynyddu tryloywder yn y maes hwn. Ein hymrwymiad yw sicrhau nad oes unrhyw duedd nac annhegwch o ran cyflog, waeth beth fo'r lleoliad, ethnigrwydd, rhyw neu anabledd.

## Hanfodion Busnes Cyfrifol

# Bod yn fusnes cyfrifol yn ein gweithrediadau




### Ein hymroddiadau

Rydym:
- wedi ymrwymo i gysylltu miliynau o bobl yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon â'r ynni y maent yn ei ddefnyddio.
- yn ymgorffori gwytnwch yn ein gweithrediadau.
- yn parhau i ddylanwadu ar ein cadwyn gyflenwi i weithredu fel busnesau cyfrifol.yn deg i'n cyflenwyr ac wedi ymrwymo i'w talu'n brydlon.
- yn cyflawni yn erbyn ein polisi Hawliau Dynol i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn parchu hawliau dynol pawb sy'n gweithio i ni, neu ar ein rhan, gan sicrhau y gallant ddisgwyl amodau gwaith gweddus, gyda'r gallu i weithio'n rhydd a chael tâl teg yn gyfnewid.
- wedi ymrwymo i fod yn fusnes cydymffurfiol a moesegol ym mhopeth a wnawn.
- yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu technolegau ac arloesiadau sydd o fudd i'n cwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach.
- yn parhau i sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu priodol ar waith i gyflawni ein hymrwymiadau busnes cyfrifol.
- yn sicrhau bod diogelwch a risgiau, seiber a chorfforol, yn cael eu monitro'n briodol.
- wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid a'r diwydiant ehangach i eiriol dros weithredu a dylanwad ehangach ar bynciau busnes cyfrifol.

### Nodau Datblygu Cynaliadwy cysylltiedig


**Cydraddoldeb rhyw**


**Ynni fforddiadwy a glân**


**Gwaith boddhaol a thwf economaidd**

### Ein pynciau perthnasol

- Dibynadwyedd rhwydwaith
- Iechyd a diogelwch
- Digideiddio a thechnoleg arloesol
- Ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi
- Seiberddiogelwch a diogelu data
- Cydymffurfiaeth a moeseg

# Hanfodion Busnes Cyfrifol

**Mae hanfodion ein Busnes Cyfrifol yn sail i'n Siarter Busnes Cyfrifol. Yma rydym yn ymdrin â'r meysydd hynny a ddisgwylir gennym, o ran sut rydym yn rhedeg y busnes a sut rydym yn ymgysylltu â'n cadwyni cyflenwi.**

**Rydym wedi ymrwymo i gysylltu miliynau o bobl yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon â'r ynni y maent yn ei ddefnyddio**
Rydym yn chwarae rhan hanfodol mewn cymdeithas, gan sicrhau bod ynni yn cyrraedd cartrefi a busnesau'r cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu mewn ffordd ddiogel, ddibynadwy ac effeithlon. Mae hyn wedi'i wreiddio ym mhob rhan o'n blaenoriaethau a'n gwerthoedd strategol, ac yn cael ei gyflwyno gan ein hunedau busnes drwy brosiectau rhwydwaith.

**Rydym yn ymgorffori gwytnwch yn ein gweithrediadau**
Mae gennym ffocws acíwt ar gynnal gweithrediadau diogel a dibynadwy ein rhwydweithiau. Er mwyn addasu ein rhwydweithiau i hinsawdd sy'n newid, rydym yn mabwysiadu ymagwedd strategol i adeiladu gwytnwch ym mhopeth a wnawn, er mwyn rhagweld, addasu ac ymateb yn well i'r risgiau o ddigwyddiadau tywydd eithafol amlach a thueddiadau hinsawdd hirdymor newidiol.

**Rydym yn parhau i ddylanwadu ar ein cadwyn gyflenwi i weithredu fel busnesau cyfrifol**
Rydym yn cydnabod bod ein cadwyn gyflenwi yn estyniad o'n gweithrediadau uniongyrchol ein hunain, ac mae'r berthynas hon yn hanfodol i gyflawni ein hymrwymiadau. Mae ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr yn nodi ein disgwyliadau, ein gwerthoedd a'n hegwyddorion sylfaenol ac rydym yn gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i ymestyn hyn i'w busnesau a'u cadwyn gyflenwi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo hawliau dynol a gwaith gweddus yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ar draws ein sector yn ein Polisi Amrywiaeth Cyflenwyr Byd-eang.

**Rydym yn deg i'n cyflenwyr ac wedi ymrwymo i'w talu'n brydlon**
Mae'r Grid Cenedlaethol wedi dangos ei ymrwymiad i drin ein cyflenwyr yn deg drwy lofnodi'r Cod Talu'n Brydlon. Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw achredig ac wedi gosod disgwyliadau ar bartneriaid asiantaethau cyflogaeth i gynnal yr un safonau cyflogaeth ag yr ydym yn eu cynnig i'n gweithwyr uniongyrchol. Disgwylir yr egwyddorion hyn gan ein cyflenwyr ac yn eu cadwyni cyflenwi eu hunain, fel y nodir yn ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr.

**Rydym yn cyflawni yn erbyn ein polisi Hawliau Dynol i sicrhau ein bod yn hyrwyddo ac yn parchu hawliau dynol pawb sy'n gweithio i ni, neu ar ein rhan, gan sicrhau y gallant ddisgwyl amodau gwaith gweddus, gyda'r gallu i weithio'n rhydd a chael tâl teg yn gyfnewid**
Ar gyfer ein cydweithwyr mae gennym linell gymorth Moeseg a phrosesau adrodd wedi'u cyfeirio'n glir, ac ar gyfer cyflenwyr mae gennym offer sgrinio ar waith. Rydym hefyd yn gweithio gyda chwmnïau cymheiriaid ar draws y diwydiant ynni i gytuno ar safonau cyffredin ar gyfer hawliau dynol. Rydym yn gweithio i gael dulliau cadarn ar waith i nodi achosion posibl o dorri hawliau dynol ac yna sicrhau bod ein cydweithwyr a'n cyflenwyr yn deall y rheini'n dda.

**Rydym wedi ymrwymo i fod yn fusnes cydymffurfiol a moesegol ym mhopeth a wnawn**
Mae ein Cod Moeseg yn berthnasol i'n holl weithwyr; caiff ei ffurfio gan ein gwerthoedd ac mae'n amlinellu disgwyliadau ymddygiadol. Ei fwriad yw helpu diogelu ein henw da fel sefydliad moesegol a chynnal ymddiriedaeth pawb rydym yn gwneud busnes â nhw. Cefnogir ein Cod gan hyfforddiant gorfodol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr o feysydd allweddol megis twyll a llwgrwobrwyo, sianeli codi llais a ble i ddod o hyd i arweiniad a chymorth ychwanegol.

**Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu technolegau ac arloesiadau sydd o fudd i'n cwsmeriaid a'r gymdeithas ehangach**
Mae ein portffolio arloesi ac Ymchwil a Datblygu, gan gynnwys ein Canolfan Arloesedd Glannau Dyfrdwy, yn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer datgarboneiddio ynni ar gyfer pŵer, gwres, trafnidiaeth a diwydiant, ac yn chwarae rhan ganolog yn hynny.

Rydym yn parhau i ddatblygu buddsoddiadau mewn technolegau sy'n dod i'r amlwg ac wedi ymgorffori'r arloesiadau hyn ar draws ein gweithrediadau craidd yn yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig.

**Byddwn yn sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu priodol ar waith i gyflawni ein hymrwymiadau busnes cyfrifol**
Mae gennym nifer o weithgorau sy'n canolbwyntio ar ein pynciau materol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau. Mae Busnes Cyfrifol yn ei gyfanrwydd yn cael ei lywodraethu gan ein Pwyllgor Llywio Cynaliadwyedd, Pwyllgor Diogelwch Gweithredol y Grŵp, Pwyllgor Iechyd a Chynaliadwyedd a Phwyllgor Diogelwch a Chynaliadwyedd y Bwrdd.




O dan hyn, mae uwch arweinwyr yn sicrhau cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau drwy Bwyllgor Llywio Cynaliadwyedd, ac mae gennym nifer o weithgorau sy'n canolbwyntio ar ein pynciau materol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau.

Mae llywodraethu pynciau penodol hefyd yn cael ei reoli mewn amrywiaeth o bwyllgorau eraill, gan gynnwys Tâl, Pobl a Llywodraethu, a Phwyllgorau Archwilio a Risg.

**Rydym yn sicrhau bod diogelwch a risgiau, seiber a chorfforol, yn cael eu monitro'n briodol**
Rydym yn amddiffyn ac yn gwella ein henw da a'n hasedau, tra'n diogelu buddiannau ein cyfranddalwyr. Mae systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd.

**Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid a'r diwydiant ehangach i eiriol dros weithredu a dylanwad ehangach ar bynciau busnes cyfrifol**
Mae cydweithio ar draws y diwydiant yn chwarae rhan hanfodol yn ein gallu i rannu arbenigedd, cynhyrchu syniadau a datrys yr heriau a welwn o'n blaenau. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau technegol, y byd academaidd a chyflenwyr yn y sector ynni sy'n cyd-fynd â'n nodau a'n hamcanion i ddarparu gwerth i'n rhanddeiliaid. Mae ein Polisi Corfforaethol Byd-eang ar Lobïo Cyfrifol ac Ymgysylltiad Gwleidyddol yn diffinio ein hymrwymiad i lobïo cyfrifol ac ymgysylltu â'n harweinwyr etholedig ar draws yr holl awdurdodaethau rydym yn gweithredu ynddynt.

# Adrodd tryloyw

Mae ein cyfres o ddogfennau adrodd yn manylu ar ein taith fusnes gyfrifol. Wrth i safonau adrodd ESG ddatblygu, byddwn yn addasu'r ffordd rydym yn adrodd yn unol â'r hyn sy'n ofynnol i sicrhau tryloywder yn ein hadroddiadau.

Mae ein cyfres adrodd o ddogfennau a'r holl bolisïau perthnasol i'w gweld ar ein **gwefan**.

**Siarter Busnes Cyfrifol (RBC)**
Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hymrwymiadau fel busnes cyfrifol

**Cynllun Pontio Hinsawdd (CTP)**
Lansiwyd y cynllun sy'n nodi ein camau gweithredu i gyrraedd targedau lleihau nwyon tŷ gwydr ein Grŵp erbyn 2050

Rydym yn ymrwymo i ddiweddaru ein CTP bob tair blynedd (lleiafswm)

**Adroddiad Busnes Cyfrifol (RBR)**
Adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer busnes cyfrifol

**Datgeliad gwirfoddol tacsonomeg yr UE**
Ein haliniad i'r ffordd safonol o ddosbarthu'r hyn sy'n 'gynaliadwy' i roi sicrwydd i fuddsoddwyr (ni oedd un o'r cwmniau cyntaf yn y byd i adrodd yn gyhoeddus yn erbyn hyn yn 2021/22)

**Adroddiad ariannu gwyrdd**
Ein barn fanwl am gyllid gwyrdd y Grid Cenedlaethol

**Methodoleg adrodd**
Mae'n egluro diffiniadau, cwmpas a methodoleg gyfrifo'r holl fetrigau perfformiad allweddol a datgeliadau'r Adroddiad Busnes Cyfrifol

**Adroddiadau Mynegeion GRI a SASB**
(Menter Adrodd Hollgynhwysol a Mynegeion Bwrdd Safonau Cyfrifo ynaliadwyedd Standards Board Indices)
Gofynion datgelu a mapio ar draws fframweithiau rydym wedi'u mabwysiadu'n wirfoddol i sicrhau ein bod yn rhoi golwg lân a chredadwy i'n rhanddeiliaid o'n heffeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd

**Llyfr data**
Lawrlwythiad Excel o'n data adrodd

**Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)**
Datgeliad yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar reoli risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chyfleoedd i wella cynllunio strategol, gwella tryloywder a galluogi rhanddeiliaid ariannol i wneud penderfyniadau dyrannu cyfalaf mwy gwybodus

**Datganiad Caethwasiaeth Fodern**
Mae'r datganiad hwn yn nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud i asesu a lliniaru'r risg o gaethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn ein busnes a'n cadwyn gyflenwi, a'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud ers ein datganiad diwethaf

## Adrodd ar Heriau

Wrth baratoi'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r ESG sydd yn yr adroddiad hwn, mae'r Grid Cenedlaethol wedi gwneud nifer o ddyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau allweddol. Mae'r prosesau, y methodolegau a'r materion dan sylw yn gymhleth. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cynnwys metrigau anariannol, amcangyfrifon neu wybodaeth arall sy'n destun ansicrwydd sylweddol, a all gynnwys methodoleg, casglu a gwirio data, amcangyfrifon a thybiaethau amrywiol, a data sylfaenol a geir gan drydydd partïon.

Mae data, modelau a methodolegau'r ESG yn aml yn gymharol newydd, yn esblygu'n gyflym ac nid ydynt o'r un safon â'r rhai sydd ar gael ar gyfer gwybodaeth ariannol a gwybodaeth arall, ac nid ydynt ychwaith yn ddarostyngedig i'r un safonau datgelu, pwyntiau cyfeirio hanesyddol, meincnodau, neu egwyddorion cyfrifyddu hollgynhwysol cyfatebol, na safonau cyfatebol. Nid yw'n bosibl dibynnu ar ddata hanesyddol fel dangosydd cryf o lwybrau'r dyfodol, yn achos newid yn yr hinsawdd a'i esblygiad. Mae allbynnau modelau, data a broseswyd a methodolegau hefyd yn debygol o gael eu heffeithio gan ansawdd data sylfaenol, a all fod yn anodd ei asesu a disgwyliwn i ganllawiau diwydiant, safonau, arferion y farchnad a rheoliadau yn y maes hwn barhau i esblygu.

Mae heriau hefyd mewn perthynas â'r gallu i gael mynediad at ddata yn amserol a'r diffyg cysondeb a chymaroldeb rhwng y data sydd ar gael. Mae hyn yn golygu bod y datganiadau, y wybodaeth a'r targedau blaengar cysylltiedig â'r ESG a drafodir yn y Siarter hon yn cynnwys elfen ychwanegol o risg ac ansicrwydd cynhenid.

Yng ngoleuni hyn, yn enwedig mewn perthynas â natur polisi yn y dyfodol ac ymateb y farchnad i newid yn yr hinsawdd a materion eraill sy'n ymwneud â'r ESG, gan gynnwys rhwng rhanbarthau, ac effeithiolrwydd unrhyw ymateb o'r fath, ac wrth i arferion y farchnad ac ansawdd ac argaeledd data ddatblygu, Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Grid Cenedlaethol ddiweddaru modelau a/neu fethodolegau, neu newid ein dull o ddadansoddi ESG a allai olygu bod angen diwygio, diweddaru ac ailgyfrifo ein datgeliadau ac asesiadau ESG yn y dyfodol, ei uchelgeisiau, nodau, ymrwymiadau a/neu dargedau ESG neu ei werthusiad o gynnydd tuag at ei uchelgeisiau, nodau, ymrwymiadau a/neu dargedau ESG.

Ni fydd gwybodaeth ESG wedi'i gwirio na'i sicrhau'n annibynnol, oni bai ei bod wedi'i nodi'n glir yn y datgeliad perthnasol.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ein **gwefan**.